

ASTUDIAETH ACHOS CELFYDDYDAU GCT (GWEITHREDU CAERAU TRELÁI)

PROSIECT 'ME & MY SPACE'

Nic Parsons a Becky Matyus sy'n sôn am eu profiad o ddefnyddio'r Egwyddorion Ansawdd ar brosiectau yn y Dusty Forge yng Nghaerdydd.

AM Y PROSIECT

Prosiect celf weledol cyfranogol, cynhwysol yw 'Me & My Space' sy'n cael ei redeg gan ein tîm Celfyddydau GCT bach yn GCT (Gweithredu Caerau Trelái) yn y Dusty Forge, Caerdydd.

Gyda phwyslais ar gyfranogiad yn canolbwyntio ar yr unigolyn a dan arweiniad yr unigolyn, rydym yn cefnogi pobl i ddatgelu, archwilio a meddiannu eu talentau creadigol.

SUT WNAETHOCH CHI DDEFNYDDIO'R EGWYDDORION ANSAWDD?

Fe wnaethom ddechrau defnyddio'r Egwyddorion Ansawdd yn llawn ar gyfer y prosiect hwn yn y cyfnod gwerthuso yn ystod y prosiect, gan nad oeddem yn gwybod amdanynt cyn hynny. Roedden nhw ar eu mwyaf defnyddiol i ni wrth asesu'r ffordd orau i symud ymlaen ac addasu'n effeithiol yn ystod y pandemig Covid. Fe wnaethom lwyddo i ganolbwyntio ar agweddau allweddol o'r Egwyddorion Ansawdd a chreu dadansoddiad manwl fel bod y prosiect yn parhau i fod yn addas i'r diben a bod ei nodau yn parhau i gael eu cyflawni yn ystod y cyfyngiadau Covid.

Fe wnaethom hefyd ddefnyddio'r Egwyddorion wrth ystyried y prosiect yn ei gyfanrwydd ac yn arbennig yn ystod hydref 2020 pan gynhaliwyd gweithdai llai gyda chyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol. Gan fod ein prosiect yn dal i fynd, rydym yn anelu i'w defnyddio i'n cefnogi wrth i ni ddychwelyd i weithio gyda chyfranogwyr yn bersonol, i gynllunio ac yna i werthuso 10 wythnos olaf ein prosiect presennol.

PWY OEDD YN CYMRYD RHAN?

Defnyddiodd ein tîm craidd o bedwar yr Egwyddorion Ansawdd i werthuso cynnydd, ansawdd ac effeithiolrwydd hanner ffordd trwy'r prosiect, oedd o gymorth mawr. Fe wnaethom ddefnyddio'r tabl a roddir yn y llyfryn Egwyddorion Ansawdd i dorri pob adran i lawr ac ystyried ein dulliau cyflwyno hyd yn hyn a wnaeth ein helpu i weld ble y gallai gwelliannau fod yn werthfawr.

Yna fe'u defnyddiwyd eto rhwng ein dau gydlynnydd prosiect, gan ganolbwyntio yn benodol ar yr adran 'Pobl' i werthuso'r newid i grwpiau llai er mwyn ein galluogi i sicrhau pellter cymdeithasol a hylendid da ym Medi-Rhag 2020.

Ar gyfer prosiectau yn y dyfodol rydym yn bwriadu defnyddio'r Egwyddorion Ansawdd gyda'r rhai sy'n cymryd rhan hefyd. Byddwn yn defnyddio fersiwn fyrrach, wedi ei addasu gydag unigolion neu grwpiau bach o gyfranogwyr yn ein gwerthusiad ar ddiwedd prosiect. Yn y dyfodol, ar gyfer prosiectau ar raddfa fwy rydym yn bwriadu ymgorffori cyfarfodydd ar-lein misol gyda'r holl bartneriaid i godi unrhyw bryderon, rhannu syniadau, ac ati a bydd yr Egwyddorion Ansawdd yn cefnogi ein fframwaith ar gyfer y sgysiau hyn.

BETH WNAETHOCH CHI EI DDYSGU?

Mae defnyddio'r Egwyddorion Ansawdd i ystyried ein hymarfer wedi ein helpu i roi ffocws i'n bwriadau. Datblygwyd ffocws cryf ar waith dan arweiniad cyfranogwyr gennym, a oedd, mewn grwpiau llai, yn golygu ein bod yn gallu cynllunio yn rhwydd o sesiwn i sesiwn a theilwra ar gyfer pob unigolyn. Llwyddodd hyn i gynyddu'r ymdeimlad o berchenogaeth ar gyfer y cyfranogwyr ac mae wedi creu profiad mwy dilys, lle mae cynnydd personol yn cael ei olrhain a'i ddathlu.

Pan wnaethom ni ddefnyddio'r Egwyddorion Ansawdd ar gyfer gwerthusiad canol tymor a cheisio gwneud y cyfan mewn un sesiwn, roedd yn llethol ac yn feichus. Er bod y gwerthusiad yn llwyddiannus, roeddem yn teimlo'n anfodlon ar y broses. Rydym wedi gweld ei bod yn fwy o gymorth canolbwyntio ar un elfen o'r Egwyddorion (Pobl) ac un rhan o'r prosiect, ac fe wnaeth hyn y broses yn llawer mwy rhwydd ac yn un oedd yn rhoi boddhad. Rydym yn debygol o ailadrodd y broses gyda'r elfennau eraill (Bwriad a Gweithgaredd) gyda gwerthusiadau prosiect eraill yn y dyfodol.

Roeddem yn ei gweld yn ddefnyddiol, ar ôl amser oddi wrth y prosiect oherwydd Covid, i ymgysfarwyddo gyda'r Egwyddorion Ansawdd eto a'u defnyddio i ystyried y prosiect yn ei gyfanrwydd wrth i ni baratoi i ddychwelyd at weithdai wyneb yn wyneb. Fe welsom nad oedd yr holl gwestiynau yn berthnasol i'n sefyllfa ni, felly rydym yn defnyddio'r hyn sy'n ddefnyddiol a gadael y gweddill. Ar ôl troi yn ôl at yr Egwyddorion ar ôl cyfnod o amser, rydym yn fwy cyfarwydd â nhw ac yn eu gweld yn fwy defnyddiol.

AWGRYMIADAU DA

1. Rhwch amser i ddefnyddio'r Egwyddorion Ansawdd ar gyfnodau amrywiol trwy gydol y prosiect, fel bod hyn ar yr amserlen o'r dechrau
2. Taclwch un o dair adran y pecyn offer (h.y. Pobl, Bwriad neu Weithgaredd) ar y tro, yn hytrach na cheisio trafod popeth mewn un sesiwn
3. Ceisiwch eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a gweld ble a sut y maent yn ffitio yn fwyaf cyfforddus yn eich prosiect a chyfrannu'n fwyaf effeithiol
4. Defnyddiwch nhw yn greadigol a byddwch yn greadigol yn eich ymatebion. Nid oes angen i'r cyfranogwyr o anghenraid wybod am fersiwn lawn fanwl y fframwaith, ond gallai creu penawdau pwyntiau bwled a symleiddio'r cynnwys fod yn ddefnyddiol iawn

RHAGOR O WYBODAETH

<https://www.aceplace.org>

